# CROESO I BWYLLGOR CYNLLUNIO
# CYNGOR SIR DDINBYCH

## SUT CAIFF Y CYFARFOD EI REDEG

Mae'r nodyn yn amlinellu sut mae'r cyfarfod yn debygol o redeg.

Oni fo Cadeirydd y Pwyllgor yn nodi i'r gwrthwyneb, bydd trefn y prif eitemau yn dilyn y rhaglen a ddangosir ar ddechrau'r adroddiad hwn.

## Cyflwyniad cyffredinol

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod am 9.30am ac yn croesawu pawb i'r Pwyllgor Cynllunio.

Bydd y Cadeirydd yn gofyn os oes unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb ac unrhyw ddatganiad o fuddiant.

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd y Swyddogion i wneud cyflwyniad byr ar yr eitemau ar y rhaglen.

Bydd Swyddogion yn amlinellu fel y bo'n briodol eitemau a fydd yn destun siarad cyhoeddus, ceisiadau am ohirio, ceisiadau a dynnwyd yn ôl, adroddiadau arbennig ac unrhyw eitemau Rhan 2 pan waherddir y wasg a'r cyhoedd. Cyfeirir at unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddosbarthwyd yn Siambr y Cyngor cyn dechrau'r cyfarfod, gan gynnwys sylwadau hwyr/taflenni crynhoi newidiadau (dalennau gleision) ac unrhyw gynlluniau atodol neu ddiwygiedig sy'n ymwneud ag eitemau i'w hystyried.

Mae'r 'Dalennau Gleision' yn cynnwys gwybodaeth bwysig, gan gynnwys crynodeb o ddeunydd a dderbyniwyd mewn perthynas ag eitemau ar y rhaglen rhwng cwblhau'r prif adroddiadau a'r diwrnod cyn y cyfarfod. Mae'r dalennau hefyd yn nodi'r drefn arfaethedig ar geisiadau cynllunio, i gymryd i ystyriaeth geisiadau i siarad gan y cyhoedd.

Mewn perthynas â threfn yr eitemau, bydd disgwyl i unrhyw Aelod sydd eisiau dwyn eitem ymlaen i gael ei hystyried wneud cais o'r fath yn union ar ôl cyflwyniad y swyddog. Dylai unrhyw gais o'r fath gael ei wneud fel cynnig ffurfiol a bydd yn destun pleidlais.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cynnwys 30 Aelod etholedig. Yn unol â'r protocol, rhaid bod 15 Aelod yn bresennol i sicrhau cworwm ac i ganiatáu ystyried eitem a chymryd pleidlais.

Caiff aelodau'r Cyngor Sir nad ydynt wedi eu hethol ar y Pwyllgor Cynllunio fynychu'r cyfarfod a siarad ar eitem, ond ni chânt wneud cynnig i roddi neu wrthod, nac i bleidleisio.

## YSTYRIED CEISIADAU CYNLLUNIO

## Y drefn i'w dilyn

Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r eitem sydd i'w thrin nesaf. Mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, cyfeirir at rif y cais, sylfaen y cynnig, a'r lleoliad.

Os oes siaradwyr o blith y cyhoedd ar eitem, bydd y Cadeirydd yn eu gwahodd i annerch y Pwyllgor. Lle mae siaradwyr yn erbyn ac o blaid cynnig, gofynnir i'r siaradwr yn erbyn fynd gyntaf. Mae siarad cyhoeddus yn destun protocol ar wahân.

Lle'n briodol, bydd y Cadeirydd yn rhoi cyfle i'r Aelodau ddarllen unrhyw wybodaeth hwyr ar yr eitem ar y 'Dalennau Gleision' cyn mynd ymlaen.

Os bydd unrhyw Aelod eisiau cynnig gohirio eitem, gan gynnwys er mwyn caniatáu ymweliad safle gan Banel Archwilio Safle, dylid gwneud y cais, gyda rheswm cynllunio. Rhoddir cyfle i drafod y cais, a chymerir pleidlais i benderfynu ar y camau i'w cymryd.

Bydd y Cadeirydd yn gofyn am gynigiwr ac eilydd o blaid neu'n erbyn argymhelliad y swyddog, neu unrhyw benderfyniad arall.

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd swyddogion i roddi cyflwyniad byr ar eitem lle ystyrir bod hyn yn werth chweil oherwydd natur y cais.

Os yw cais wedi bod yn destun Panel Archwilio Safle cyn y Pwyllgor, bydd y Cadeirydd fel rheol yn gwahodd yr Aelodau hynny a fynychodd, gan gynnwys yr aelod lleol, i siarad yn gyntaf.

Ar bob cais arall, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r aelod(au) lleol siarad yn gyntaf os dymuna wneud hynny.

Cyfyngir aelodau fel rheol i bum munud o siarad ar y mwyaf, a bydd y Cadeirydd yn arwain y drafodaeth yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Unwaith y bydd aelod wedi siarad, ni ddylai siarad eto ac eithrio i ofyn am esboniad o bwyntiau sy'n codi yn y drafodaeth, ac yna dim ond pan fydd yr holl aelodau eraill wedi cael cyfle i siarad, a chyda cytundeb y Cadeirydd.

Ar ddiwedd trafodaeth yr Aelodau, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r swyddogion ymateb fel y bo'n briodol i gwestiynau a phwyntiau a godwyd, gan gynnwys cyngor ar unrhyw benderfyniau sy'n groes i'r argymhelliad.

Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi pan fydd yn drafodaeth wedi cau, a bod pleidlais i ddilyn.

## Y drefn bleidleisio

Cyn gofyn i'r aelodau bleidleisio, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi pa benderfyniadau sydd wedi eu gwneud a sut mae'r bleidlais i'w chynnal. Efallai y bydd cais am esboniad ar y penderfyniadau, newidiadau, amodau ychwanegol a rhesymau dros wrthod fel nad oes unrhyw amwysedd ynglŷn â'r hyn y mae'r Pwyllgor yn pleidleisio o'i blaid neu yn ei erbyn.

Os bydd unrhyw aelod yn gofyn am Bleidlais Gofnodedig, rhaid trin hyn yn gyntaf yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Bydd y Cadeirydd yn esbonio'r drefn i'w dilyn.

Pan fydd y Cadeirydd yn fodlon y caiff y bleidlais fynd rhagddi, gwneud hyn trwy'r system bleidleisio electronig. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r swyddogion drefnu'r sgrîn bleidleisio yn y Siambr a rhaid i'r aelodau bleidleisio unwaith y bydd y sgrîn yn ymddangos.

Mae gan yr aelodau 10 eiliad i gofnodi eu pleidlais unwaith y dangosir y sgrîn bleidleisio.

Os bydd y system bleidleisio electronig yn methu, gellir pleidleisio trwy godi dwylo. Bydd y Cadeirydd yn esbonio'r drefn i'w dilyn.

Ar ôl y bleidlais, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r penderfyniad ar yr eitem.